# Agenda - Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Lleoliad:

**Lleoliad Allanol - Yr Hen Goleg, Aberystwyth**

Dyddiad: Dydd Gwener, 6 Gorffennaf 2018

Amser: 11.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Graeme Francis**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

CraffuPW@cynulliad.cymru

---

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog - Y Diwydiant Twristiaeth yng Nghymru

(Tudalennau 1 - 13)

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC - Prif Weinidog Cymru

Jason Thomas, Cyfarwyddwr, Diwylliant, Chwaraeon a Twristiaeth

Mari Stevens, Dirprwy Gyfarwyddwr, Marchnata

## 3 Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog - Materion Amserol

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC - Prif Weinidog Cymru

## 4 Papurau i'w nodi

**4.1 PTN 1 - Ymateb gan y Prif Weinidog yn dilyn y cyfarfod ar 16 Chwefror 2018**

(Tudalennau 14 - 17)

**4.2 PTN 2 - Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.2 i roi cyfarwyddyd i'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog**

(Tudalen 18)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Eitem 6

# 6 Trafod y dystiolaeth a gafwyd o'r sesiwn flaenorol

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ann Jones AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd

ScrutinyFM.cynulliad.cymru

29 Mawrth 2018

Annwyl Ann,

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 15 Mawrth ar ôl i mi ymddangos gerbron y Pwyllgor yn y Drenewydd ar 16 Chwefror. Mae fy sylwadau isod yn ymateb i bob un o'ch pwyntiau.

**Cymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer busnesau sy'n rhan o deithiau masnach**

Mae angen i gwmnïau fuddsoddi cryn dipyn o amser ac arian er mwyn datblygu busnes allforio newydd. Mae Llywodraeth Cymru'n cyfrannu at y buddsoddiad hwn drwy gynnig cyngor a chymorth sydd ar gael am ddim neu am bris gostyngol.

Ni ddylai cwmnïau ystyried teithiau masnach fel y cam cyntaf tuag at allforio. Er eu bod yn ffordd dda o asesu'r cyfleoedd posibl mewn marchnad mae angen gwneud llawer o waith paratoi ymlaen llaw er mwyn sicrhau y gall cwmnïau elwa i'r eithaf ar eu hamser yn y farchnad. Mae llawer o gefnogaeth ar gael er mwyn helpu cwmnïau i baratoi ar gyfer y teithiau masnach, ac mae llawer o'r gefnogaeth honno un ai ar gael am ddim neu am bris llawer iawn rhatach. Fel y nodais yn y Drenewydd, mae rhannu'r gost yn tystio i ymrwymiad a phartneriaeth ar y cyd rhwng y cwmni a Llywodraeth Cymru. Mae cost cymryd rhan gryn dipyn yn rhatach ac os yw cwmni'n awyddus iawn i allforio ni ddylai'r gost ei rwystro rhag ymuno â thaith fasnach.

Mae tri gwahanol fath o ymyrraeth ar gyfer mynd â chwmni i farchnad sef: Ymweliadau Datblygu Masnach Bwyd a Diod; presenoldeb mewn sioeau masnach ar raddfa eang; ac ymweliadau masnach amlsector. Mae swyddogion yn cydweithio â chwmnïau er mwyn sicrhau eu bod yn barod ar gyfer y gwahanol raglenni. Rydym yn darparu cymorth un i un sydd wedi'i ariannu'n llwyr drwy gontractiwr ym maes Datblygu Masnach Ryngwladol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru •
ps.firstminister@gov.wales mailto:ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn helpu cwmnïau i ddatblygu strategaeth allforio, pennu a blaenoriaethu marchnadoedd targed, rhoi cyngor ynghylch llwybrau i farchnadoedd, safonau technegol, gwaith papur a logisteg.

Mae'n Clwb Allforio'n gwella sgiliau busnesau bwyd a diod Cymru er mwyn cyflawni archebion allforio sylweddol. Mae modd ymuno â'r Clwb Allforio am ddim ar hyn o bryd. Rydym yn trefnu digwyddiadau yn y DU a thramor er mwyn cefnogi a mentora cynhyrchwyr am ddim wrth iddynt baratoi ar gyfer digwyddiadau ac rydym yn cynnig cymorth am bris gostyngol iawn ar y stondinau arddangos.

Os nad yw Llywodraeth Cymru yn mynychu digwyddiad ond bod cleient yn dymuno gwneud hynny byddwn gan amlaf yn talu 50% o'r gost. O safbwynt allforwyr mwy profiadol, mae'n hymgynghorwyr yn eu helpu i bennu cwsmeriaid posibl o fewn eu marchnadoedd targed a chysylltu â nhw drwy Gyfleoedd Masnach Ryngwladol. Caiff y gwasanaeth hwn ei deilwra ar gyfer pob cwmni, ac maen nhw'n talu 25% o gost gymeradwy prosiect.

**Hyrwyddo'r diwydiant bwyd a diod**

Caiff Dathliad y Great Taste ei ystyried fel Oscars y byd bwydydd da. Mae'r digwyddiad yn dwyn ynghyd Enillwyr Cymreig Gwobrau Aur y Great Taste a phrynwyr bwyd a diod er mwyn arddangos, hyrwyddo a phrofi'r cynhyrchion buddugol.

Caiff y gwobrau eu hystyried fel bathodynnau rhagoriaeth gan ddefnyddwyr a phrynwyr masnach. Mae'r digwyddiad yn tynnu sylw at frandiau bwyd a diod Cymreig drwy ddefnyddio dealltwriaeth glir o'r strategaeth fasnach wrth gyflwyno'r brandiau i brynwyr. Gwnaeth 165 o gynhyrchwyr bwyd a diod Cymreig gymryd rhan yng nghystadleuaeth Great Taste y llynedd.

Mae'r dathliad hefyd yn gyfle i wahodd y cyfryngau, beirniaid bwyd a chogyddion, gan sicrhau'r cyhoeddusrwydd gorau posibl i rai o gynhyrchion gorau Cymru. Daeth Gwobrau'r Gwir Flas i ben oherwydd dangosodd gwaith ymchwil manwl ymysg defnyddwyr nad oedd llawer o bobl yn eu cydnabod. Roedd cynnal y gystadleuaeth a'r gwobrau hefyd yn gostus iawn. O'r herwydd, credir bod y Gwobrau Great Taste lawer yn fwy buddiol i gynhyrchwyr.

**Cyflenwi cynhyrchion Cymreig i fanwerthwyr mawr**

Mae Rhaglen Datblygu Masnach Llywodraeth Cymru'n herio cyflenwyr ac yn sbarduno effeithlonrwydd a chynhyrchiant er mwyn tyfu busnesau. Rydym yn darparu gwybodaeth gyfredol a manwl am farchnadoedd i gyflenwyr a phrynwyr ac yn helpu cyflenwyr i ddefnyddio'r wybodaeth hon er mwyn cynyddu eu cyfran o'r farchnad. Mae'r Rhaglen Datblygu Masnach yn cynnwys Ymgysylltu â Masnach, Cwrdd â'r Prynwr, Gweithgareddau Dydd Gŵyl Dewi a chymorth â Rheoli Categori, y Lolfa Fusnes lwyddiannus yn Sioe Frenhinol Cymru a digwyddiad dathlu enillwyr Cymreig y Gwobrau Great Taste.

Trwy Ymgysylltu â Masnach rydym yn datblygu ac yn cynnal cysylltiadau ag unigolion dylanwadol ac allweddol o fewn pob un o'r prif archfarchnadoedd, cyfanwerthwyr a gweithredwyr gwasanaethau bwyd, ym maes cyrchu cynhyrchion gan fwyaf, a hefyd â Rheolwyr a Chyfarwyddwyr Rhanbarthol neu Brynu. Rydym yn cyfarfod â nhw yn eu siopau, mewn digwyddiadau a thrwy Gonsortiwm Manwerthu Cymru, er mwyn sicrhau eu bod yn deall natur cyflenwyr Cymru a'r amrywiaeth gynyddol o gynhyrchion bwyd a diod sydd ar gael. Rydym yn manteisio ar y cyfle i ystyried a thrafod blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru gan gynnwys diogelwch bwyd, gwastraff bwyd, tlodi bwyd, maeth a diogelwch iechyd a bwyd.

Rydym yn cefnogi cynhyrchwyr bwyd i barhau'n ymwybodol o newidiadau o safbwynt blas a thueddiadau defnyddwyr ac i ddeall ymddygiadau prynu newydd ac ymateb iddynt. Mae gwaith hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol, apiau a gwasanaethau archebu a thalu ar-lein, ynghyd â'r cynnydd mewn bwyd stryd oll yn effeithio ar yr hyn y mae defnyddwyr yn chwilio amdano. Er mwyn helpu cwmnïau Cymreig i lwyddo o fewn y farchnadle presennol rydym yn eu helpu i gasglu gwybodaeth fanwl am eu 'categori' fel y gallant gynnig y cynhyrchion y mae eu cwsmeriaid yn dymuno eu prynu. Mae'n cymorth hefyd yn galluogi cyflenwyr i ddeall safle eu cynnyrch o fewn y farchnad a hefyd bwysigrwydd arddangos, pecynnu, pwyntiau pris etc ac yn dadansoddi categorïau'n fanwl er mwyn gwneud yn siŵr y bydd cynhyrchion newydd yn sicrhau gwerthiant am bris sy'n sicrhau elw ac sy'n gynaliadwy yn yr hirdymor. Mae'r galw gan ddefnyddwyr am gynhyrchion cyfleus a bwyd wrth fynd sy'n fwy iach yn cynyddu. Mae'n gwaith wedi pennu cyfleoedd twf penodol ar gyfer cynhyrchwyr a fydd yn eu helpu â'u gwaith o fewn y categorïau hyn. Wrth i iechyd a lles barhau'n flaenoriaethau i'r llywodraeth ac i ddefnyddwyr mae angen i ni ddeall y cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer cynnig opsiynau iach yn ardaloedd bwyd wrth fynd siopau cyfleustra.

Mae technoleg yn ei gwneud hi'n haws i greu a gwerthu bwydydd cyfleus ond mae'n rhaid i gynhyrchwyr a manwerthwyr fod yn flaengar, gan hyrwyddo'r cynhyrchion cywir i'r marchnadoedd cywir er mwyn sicrhau eu llwyddiant a hefyd sicrhau eu bod yn ddeniadol i ddefnyddwyr. Mae adolygiad wrthi'n cael ei gynnal o'r farchnad bwydydd cyfleus. Mae gan Gymru nifer uchel o fanwerthwyr annibynnol bach felly bydd yr wybodaeth hon yn berthnasol iawn ac yn ategu'r hyn a gynigiwn sydd wedi canolbwyntio'n bennaf ar y cadwyni mawr drwy waith Kantar. Gall Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r wybodaeth er mwyn galluogi a chefnogi diwydiant bwyd a diod Cymru i ddeall y farchnad sy'n newid a'r galw gan ddefnyddwyr sy'n prysur newid. Mae gwaith ymchwil ym maes cyfleustra yn flaenoriaeth newydd ac mae'n faes y mae Llywodraeth Cymru'n anelu at ei ddeall yn well er mwyn sicrhau y gall barhau i gynnig y cymorth mwyaf priodol.

**Cyllid yn y Dyfodol ar gyfer Amaeth a Rheoli Tir**

Mae Trysorlys ei Mawrhydi, Defra a Grŵp Cydgysylltu ymadael â'r UE y Gweinyddiaethau Datganoledig, y mae Llywodraeth Cymru'n aelod ohono, yn gyfrifol am ystyried manylion yr ymrwymiadau presennol a'n perthynas yn y dyfodol o safbwynt cyllid. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd er mwyn asesu goblygiadau cytundeb y cyfnod Pontio a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Mae cyllid bellach yn eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd pedairochrog misol Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r swyddogion cyfatebol yn y Gweinyddiaethau Datganoledig eraill.

Byddaf yn disgwyl i Lywodraeth y DU gadw at eu haddewid o ran sicrhau bod y cyllid sydd wedi'i glustnodi yn cael ei ddarparu fel na fydd gofyn i Lywodraeth Cymru gyllido unrhyw ddiffyg o'n cyllidebau presennol. Byddaf hefyd yn disgwyl i hyn fod yn sail i unrhyw gytundeb cyllid yn y dyfodol fel na fydd Llywodraeth Cymru ar ei cholled yn ariannol yn sgil ymadael â'r UE.

**Yr M4 o amgylch Abertawe**

Gwnes hefyd gytuno yn ystod sesiwn y Pwyllgor y byddwn yn ysgrifennu atoch gan roi rhagor o wybodaeth am y mater hwn. Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ysgrifennu at Dai Lloyd AC ar 5 Mawrth ynghylch ei bryderon o ran yr M4 o amgylch Abertawe, a nododd yr wybodaeth ganlynol.

Fel rhan o'n rhaglen Mannau Cyfyng sy'n anelu at leihau tagfeydd, rydym wedi cwblhau astudiaeth ddichonoldeb Cam 1 WelTAG ar gyfer cyffyrdd 32 i 35 o'r M4. Bydd y gwaith yma'n symud ymlaen i Gam 2 yn awr. Mae Cyffyrdd 35-49 bellach yn rhan o'r un broses Cam 1. Bydd y gwaith yma'n cymryd cryn dipyn yn fwy o amser gan ei fod yn cynnwys darn llawer hirach o'r M4 lle y mae amryfal faterion i'w trafod ynghylch cyffyrdd penodol. Rhagwelir y bydd y cam cyntaf yn cael ei gwblhau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd, ac y bydd Cam 2 yn dechrau yn ystod haf 2018.

Unwaith y bydd y prosesau hyn wedi'u cwblhau byddwn mewn gwell sefyllfa i roi rhagor o wybodaeth am fesurau lliniaru posibl a allai gael eu cyflwyno.

O safbwynt diogelwch ar y ffyrdd, rydym yn adolygu data ynghylch gwrthdrawiadau er mwyn pennu'r angen am welliannau. Mae rhaglen dreigl o gynlluniau'n deillio o'r gwaith yma. Caiff y rhain eu blaenoriaethu fel y bo angen ac maent yn ddibynnol ar y cyllid sydd ar gael ar draws Cymru.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

# Eitem 4.2

**Cynnig i gyfarwyddo Pwyllgor – Cynnig Dyddiad Trafod NDM6573**

1. Gwahoddir Aelodau i nodi NDM6573 (fel y'i diwygiwyd), a dderbyniodd y Cynulliad ar 29 Tachwedd 2017.

2. Mae'r cynnig yn cyfarwyddo'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog i nodi pedwar pwynt, gan gynnwys yr adroddiad gan James Hamilton, sy'n gynghorydd annibynnol i Lywodraeth Cymru, i honiadau i'r Prif Weinidog dorri Cod y Gweinidogion.

3. Cafodd adroddiad James Hamilton ei osod gerbron y Cynulliad ar 17 Ebrill 2018.

**NDM6573 (fel y'i diwygiwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.2, yn cyfarwyddo'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog i nodi:

1. Ymrwymiad Llywodraeth Cymru i benodi panel o gynghorwyr annibynnol i ddarparu ffynhonnell allanol o gyngor arbenigol ar ymddygiad Gweinidogol yn unol â'r hyn sy'n ofynnol o dan God y Gweinidogion, fel y nodwyd yn y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 23 Tachwedd 2017.
2. Bod James Hamilton, sy'n gynghorydd annibynnol i Lywodraeth yr Alban ar hyn o bryd, wedi ei benodi'n gynghorydd annibynnol i Lywodraeth Cymru; a
3. Bod y Prif Weinidog wedi cyfeirio'i hun at James Hamilton mewn perthynas â honiadau, a wnaed yn y pythefnos diwethaf, iddo dorri Cod y Gweinidogion; ac
4. Adroddiad terfynol y Cynghorydd Annibynnol pan fydd yn cael ei gyhoeddi.

Datganiad Ysgrifenedig
Cod y Gweinidogion – Tachwedd 2017